

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod Brys 12/10/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Thomas Victor Jones  
John Brinley Jones (cad)

William Penri Jones  
D Andrew Parry

Greta Hughes  
William Roger Jones

Barbra Warren

### Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnwyd i WRJ gofnodi ac fe gytunwyd i bleidleisio drwy godi llaw a nodio pen.

1. Ymddiheuriadau - dim
2. Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol. Dim
3. Cofnodion Pwyllgor 28/9/2020 . Rhai newidiadau cyn derbyn y cofnodion.

Cywiro dyddiad y cyfarfod i 28/9/2020

Hefyd ychwanegu at eitem 14 -**Neuadd y Pentref** :- Bu Tomos Hughes o'r Gwasanaeth Ambiwylans mewn cyfarfod gyda'r Cadeirydd a BW i drafod y diffib. Dangosodd sut i sicrhau fod y diffib yn gweithio, - fod y padiau oddi fewn y dyddiad cywir a sut i ddiweddarau'r wybodaeth ar y wefan <https://www.thecircuit.uk/> . Cytunwyd i archwilio'r diffib yn fisol a diweddarau'r dudalen ar y we. Dylid cysylltu â Tomos Hughes yn syth os oes problem a diweddarau'r dudalen we fod y diffib yn ddiffygiol.

Mae cyfrifiadur y Cyngor yn awr ym meddiant y Cadeirydd

#### 4. Cae Chwarae.

JBJ a DAP wedi ymweld â'r cae chwarae a sicrhau fod arwyddion clir i bawb gadw draw a rhoi clo ar y giât fach a "cable ties" ar y giât fawr (rhag ofn fod y gwasanaethau brys angen mynediad).

Darllenwyd e-bost yn nodi pryderon y Cynghorydd Angela Russell ynglŷn â'r wifren drydan sydd o dan y cae chwarae. Mae JBJ wedi holi Sc. Power am y risg ond heb gael ateb eto. Penderfynwyd anfon cynllun yn dangos lleoliad y wifren i'r cwmni yswiriant a hefyd gofyn am gymorth Cyngor Gwynedd ac AHNE Llŷn.

AP yn cynnig mynd i lenwi rhai mân dyllau ar y cae a all fod yn beryg i blant chwarae yno pan agorir y cae.

GH yn bryderus am sefyllfa yswiriant pan fydd aelodau'r Cyngor Cymuned y gweithio ar y cae chwarae.

Bydd gwahoddiad i Alaw sy'n aelod o Bwyllgor y Cae Chwarae ddod i'r cyfarfod nesaf.

#### 5. Ymddiswyddiad y Clerc.

Adroddwyd fod swydd Rhian Parry (Clerc) wedi dod i ben nos Wener (10fed). Bu JBJ, BW, DAP a Rhian mewn cyfarfod yn y Neuadd i dderbyn dogfennau'r Cyngor gan gynnwys dogfennau'r Fynwent. Bydd JBJ yn delio hefo materion y Fynwent ar hyn o bryd pan fo ymgymerydd yn cysylltu.

Adroddwyd fod holl ddogfennau'r cyngor wedi eu trosglwyddo yn daclus a chywir ac wedi eu storio mewn cwpwrdd yn y Neuadd yn barod i'w trosglwyddo i'r Clerc nesaf. Cynigiwyd ein bod yn diolch i Rhian am ei gwasanaeth (WPJ, AP yn eilio). **Pasiwyd** y cynnig ond GH yn awyddus i nodi ei gwrthwynebiad. GH yn bryderus ynglŷn â thaliadau costau swyddfa'r clerch a'r trefniadau treth incwm.

**Penderfynwyd** ym mhellach (Cynnig DAP a WPJ yn eilio) fod JBJ yn e-bostio Rhian i ofyn am anfonebau costau'r clerch a gwybodaeth treth dros y ddwy flynedd diwethaf. Pawb o blaid.

Mae swydd y Clerc wedi ei hysbysebu, - dyddiad cau diwedd y mis. Trafod y drefn cyfweld yn y cyfarfod nesaf 26/10/2020.

Clerc – • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

Cadeirydd – John Brinley Jones • [jbjones@ppm-technology.com](mailto:jbjones@ppm-technology.com) • 07775577869 •

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

## **Cofnodion Cyfarfod Brys 12/10/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19**

TAW. Adroddwyd fod gennym tan fis Mawrth 2021 i gyflwyno ceisiadau TAW dros y tair blynedd diwethaf.  
**Penderfynwyd** (cynnig DAP eilydd WPJ) disgwyl a gofyn i'r clerwr newydd wneud y gwaith TAW. Pawb o blaid.

Yr aelodau yn gytûn yn eu diolchiadau i'r Cadeirydd am ei waith ar ein rhan dros y cyfnod anodd hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55. Cyfarfod nesaf 26/10/2020.

Clerc – • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

Cadeirydd – John Brinley Jones • [jbjones@ppm-technology.com](mailto:jbjones@ppm-technology.com) • 07775577869 •